



Prif Grantiau

Canllawiau ar y Ffurflen Gofrestru i Sefydliadau

Rhagfyr 2019

Contents

Pwrpas y canllawiau hyn.....	3
Pa mor hir mae'n ei gymryd i lenwi'r Ffurflen Gofrestru?	3
Eich Cyfrifon	4
Eich Dogfen Lywodraethu	4
Canllawiau fesul Cwestiwn.....	5
1. Manylion Cyswllt	5
2. Eich Sefydliad	5
3. Cyllid.....	9
4. Atodiadau.....	11
5. Diogelu	11
6. Eich Prosiect.....	15
7. Adborth	15

Pwrpas y canllawiau hyn

Bydd y ddogfen hon yn rhoi arweiniad i chi ar bob cwestiwn ar ein Ffurflen Gofrestru i sefydliadau.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio fersiwn ddiweddaraf y canllawiau hyn.

Pa mor hir mae'n ei gymryd i llenwi'r Ffurflen Gofrestru?

- 🐼 Mae'n dibynnu ar eich sefydliad. Dyma rywffaint o awgrymiadau defnyddiol i helpu gyda'r broses.
- 🐼 Darllenwch ein safonau sylfaenol ar gyfer dyfarnu grantiau a'n Canllawiau A-Z i wneud yn siŵr bod eich sefydliad yn gymwys. Bydd y ffurflen hon yn eich holi am gyllid, trefniadau llywodraethu a gweithdrefnau diogelu eich sefydliad. Gwnewch yn siŵr bod eich cyfrifon diweddaraf, eich dogfen lywodraethu a'ch polisi diogelu wrth law cyn i chi ddechrau llenwi'r ffurflen
- 🐼 Rhaid i chi ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen hon, oni bai ein bod wedi nodi bod y cwestiwn yn un dewisol
- 🐼 Mae gan lawer o'r cwestiynau gyfyngiad nodau.. Pan fyddwch wedi teipio'r uchafswm nodau mewn maes, ni fyddwch yn gallu teipio mwy. Atebwch yn glir ac yn gryno
- 🐼 Os ydych yn dymuno llenwi unrhyw ran o'r ffurflen rywbryd eto, cliciwch y botwm 'Cadw a Chwblhau Rhywbryd Eto' ar y diwedd. Bydd hyn yn cadw eich cynnydd ar y pryd, gan ganiatáu i chi orffen llenwi'r ffurflen rywbryd eto

Eich Cyfrifon

Fel rhan o'r broses gofrestru, gofynnwn i chi gyflwyno cyfrifon eich sefydliad. Dylech atodi'r rhain i'r ffurflen.

Rhaid i'ch cyfrifon:

- 🐾 **Fod wedi'u llofnodi a'u dyddio gan Gadeirydd neu Drysorydd y Corff Llywodraethu.** Nid oes angen cyfrifon wedi'u llofnodi arnom gan elusennau sydd wedi cofrestru â Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr. Rydym yn disgwyl i sefydliadau gymeradwyo eu cyfrifon yn ffurfiol. Rhaid i gopi wedi'i lofnodi fod ar gael yng nghyfeiriad cofrestredig yr elusen. Efallai y byddwn yn gofyn amdano.
- 🐾 **Fod yn ddim mwy na 18 mis oed.** Os ydynt yn fwy na 18 mis oed, bydd rhaid i chi esbonio hynny
- 🐾 **Rhaid i gyfrifon ymwneud â chyfnod o 12 mis.** Bydd angen i chi roi esboniad i ni os yw eich cyfrifon yn ymwneud â chyfnod byrrach neu hirach na hyn

Eich Dogfen Lywodraethu

I ateb nifer o'r cwestiynau ar y ffurflen hon, bydd angen i chi gyfeirio at ddogfen lywodraethu eich sefydliad. Gwnewch yn siŵr bod gennych fynediad ati cyn dechrau llenwi'r ffurflen hon.

Mae dogfen lywodraethu yn amlinellu rheolau ac amcanion y sefydliad, a sut mae'n gwneud penderfyniadau. Yn aml, gelwir y ddogfen hon yn gyfansoddiad. Yn achos Cwmnïau Buddiannau Cymunedol, fe'i gelwir yn Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu..

Dylai eich dogfen lywodraethu nodi:

- 🐾 **Bod eich sefydliad yn un nid-er-elw.** Rhaid bod cymal clir yn ei ddogfen lywodraethu sy'n dangos ei fod yn defnyddio ei holl incwm tuag at ddibenion y sefydliad, ac nad yw cyllid yn cael ei ddsbarthu i aelodau, cyfranddalwyr na pherchnogion
- 🐾 **Bod eich nodau elusennol yn addas ar gyfer gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y DU**
- 🐾 **Cymal diddymu/clo asedau ar waith sy'n mynnu bod asedau'n cael eu dosbarthu i sefydliad â nodau elusennol tebyg os bydd y sefydliad yn dirwyn i ben**

Ar gyfer Cwmnïau Buddiannau Cymunedol, rhaid i'r cymal diddymu/clo asedau nodi enw'r sefydliad dan sylw

Os ydych yn talu unrhyw aelodau o'ch Corff Llywodraethu, mae'n rhaid i chi roi manylion am hyn mewn cytundeb ysgrifenedig ffurfiol. Os ydych yn elusen gofrestredig, rhaid i chi gael cydsyniad priodol gan y rheoleiddiwr elusennau hefyd.

Os yw unrhyw ran o'r canllawiau hyn yn aneglur neu fod angen rhagor o gymorth arnoch, cysylltwch â BBC Plant mewn Angen ar 0345 609 0015 neu pudseygrants@bbc.co.uk

Canllawiau fesul Cwestiwn

1. Manylion Cyswllt

1.1 Enw'r Sefydliad

Defnyddiwch enw cyfreithiol eich sefydliad. Bydd eich enw cyfreithiol ar eich dogfennau llywodraethu a'ch cyfrif banc.

1.2 Cyfeiriad a manylion cyswllt eich sefydliad

Defnyddiwch gyfeiriad cofrestredig eich sefydliad. Dylai hwn fod yn gyfeiriad gweithredol ac nid yn flwch swyddfa'r post (PO BOX) neu gyfnewidfa bost.

1.3 Prif fanylion cyswllt

Rhowch fanylion y person sy'n bwynt cyswllt yn eich sefydliad o ran y cais hwn a'r prosiect rydych yn gwneud cais am gyllid ar ei gyfer.

1.4 Gwefan y sefydliad

Nodwch wefan fwyaf gweithredol eich sefydliad. Gallai hwn fod yn dudalen cyfryngau cymdeithasol neu eich gwefan eich hun.

1.5 Manylion cyswllt y Cadeirydd

Rhowch fanylion Trysorydd eich sefydliad, neu'r unigolyn cyfatebol. Ni chaiff y person hwn fod yr un person ag sydd wedi'i nodi fel Cadeirydd eich sefydliad.

Os dyfernir cyllid, bydd angen i'r Trysorydd lofnodi telerau ac amodau'r grant.

Os nad oes Trysorydd ar gael, caiff unigolyn cyfatebol priodol (fel Cyfarwyddwr ag awdurdod dirprwyedig, Is-gadeirydd neu Ysgrifennydd y Cwmni) lofnodi.

1.6 Manylion cyswllt y Trysorydd

Rhowch fanylion Trysorydd eich sefydliad, neu'r unigolyn cyfatebol. Ni chaiff y person hwn fod yr un person ag sydd wedi'i nodi fel Cadeirydd eich sefydliad.

Os dyfernir cyllid, bydd angen i'r Trysorydd lofnodi telerau ac amodau'r grant.

Os nad oes Trysorydd ar gael, caiff unigolyn cyfatebol priodol (fel Cyfarwyddwr ag awdurdod dirprwyedig, Is-gadeirydd neu Ysgrifennydd y Cwmni) lofnodi.

2. Eich Sefydliad

2.1 Pa fath o sefydliad ydych chi?

Rydym yn rhoi cyllid i sefydliadau nid-er-elw sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc dan anfantais 18 oed ac iau sy'n byw yn y Deyrnas Unedig, Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel.

Mae sawl math gwahanol o sefydliadau nid-er-elw yn y DU, a phob un â strwythur cyfreithiol gwahanol. Dewiswch pa fath o sefydliad sy'n berthnasol i chi.

Rydym yn rhoi cyllid i'r canlynol:

- 👉 Cwmnïau Buddiannau Cymunedol sy'n gyfyngedig trwy warant
- 👉 Cwmnïau cyfyngedig trwy warant, gan gynnwys mentrau cymdeithasol
- 👉 Cymdeithasau tai
- 👉 Elusennau cofrestredig
- 👉 Sefydliadau crefyddol
- 👉 Ysgolion arbennig

Nid ydym yn cyllido'r canlynol:

- 👉 Ysgolion: Ceisiadau gan ysgolion, academiâu, prifysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, a sefydliadau addysgol statudol. Byddwn yn ystyried ceisiadau gan Ysgolion Arbennig. Mae'r rhain yn ddarpariaethau i blant ag anableddau neu anawsterau dysgu nad oes modd darparu ar eu cyfer mewn lleoliad prif ffrwd
- 👉 Cyrff Llywodraeth Leol: Mae hyn yn cynnwys cyngorau ar bob lefel Sefydliadau heb eu cofrestru: Rydym yn disgwyl bod pob sefydliad wedi cofrestru â chorff perthnasol

Rhaid i bob sefydliad a gyllidir gyrraedd ein safonau sylfaenol ar gyfer dyfarnu grantiau.

2.2 Ble mae eich sefydliad yn cyflawni gwaith?

Rhowch wybod i ni ble, yn ddaearyddol, mae eich sefydliad yn cyflawni gwaith. Gallai hyn fod yn eich ardal leol neu ledled y DU/yn drawsgenedlaethol. Ystyr ledled y DU a thrawsgenedlaethol yw prosiectau lle nad yw'r plant rydych yn anelu at weithio gyda nhw yn byw mewn un ardal. Er enghraifft, efallai fod y prosiect wedi'i leoli mewn un ardal ond yn cyflawni gwaith mewn ardal arall. Gallai hyn fod ar draws y wlad neu mewn gwlad wahanol (h.y. Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon). Efallai fod y prosiect yn digwydd mewn un lleoliad, neu ar-lein neu dros y ffôn.

2.3 Os ydych yn sefydliad cofrestredig (e.e. elusen, Cwmni Buddiannau Cymunedol neu gwmni cyfyngedig drwy warant), nodwch eich rhif cofrestru (neu eich rhif Cyllid a Thollau EM os ydych yn elusen yng Ngogledd Iwerddon sydd heb gael ei galw i gofrestru eto).

Nodwch eich rhif cofrestru ar gyfer pa gorff priodol bynnag rydych wedi cofrestru ag ef.

Yng Nghymru a Lloegr, mae'n rhaid i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol gydag incwm dros £5,000 yn y flwyddyn flaenorol fod wedi cofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'n rhaid i sefydliad elusennol gofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon pan fyddant yn cael eu galw gerbron y Comisiwn.

Os yw eich sefydliad yn gwmni sydd wedi cofrestru â Thŷ'r Cwmnïau, defnyddiwch eich rhif cofrestru Tŷ'r Cwmnïau.

2.4 Os ydych yn ysgol arbennig, a ydych yn academi?

Rhowch wybod i ni os mai academi yw eich ysgol. Mae academiâu'n ysgolion sy'n cael cyllid uniongyrchol gan y llywodraeth. Maen nhw'n cael eu rhedeg gan ymddiriedolaeth academiâu.

2.5 Os mai academi ydych, ydych yn rhan o ymddiriedolaeth aml-academi?

Os mai academi yw eich ysgol, rhowch wybod i ni os yw'n rhan o ymddiriedolaeth aml-academi.

2.6 Os felly, rhowch enw eich ymddiriedolaeth aml-academi.

Os yw'n berthnasol, nodwch enw'r ymddiriedolaeth aml-academi yr ydych yn rhan ohoni.

2.7 Ydych yn annibynnol, neu'n gangen o sefydliad mwy neu grŵp o sefydliadau?

Nodwch a yw eich sefydliad yn gyfreithiol gysylltiedig â sefydliad mwy, grŵp o sefydliadau neu'n rhan o ffederasiwn.

Sylwch, os ydych yn rhan o sefydliad mwy sy'n gweithredu yn yr un wlad â chi, ac nad oes gennych gyfansoddiad ar wahân, ni fydd y ddau sefydliad yn gallu cael grant gennym.

Gall sefydliadau ledled y Deyrnas Unedig gael un Grant ym mhob un o'r pedair gwlad (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon).

Mae ein rheolau arferol o fewn pob gwlad yn berthnasol i ganghennau lleol sefydliad mwy o faint. Dim ond un Prif Grant ac un Grant Bach y gall yr elusen gyfan ei chynnal ar y tro.

Rydyn ni'n trin canghennau annibynnol sefydliadau cenedlaethol fel sefydliadau ar wahân. Mae gan ganghennau annibynnol eu cyfansoddiad eu hunain, eu pwyllgor rheoli eu hunain ac maen nhw'n gwbl gyfrifol am eu cyllid eu hunain. Gallwn dderbyn ceisiadau gan bob cangen.

2.8 Nodwch enw a rhif elusen eich sefydliad rhiant (os yw'n berthnasol)

Nodwch enw a rhif elusen eich sefydliad rhiant, os oes gennych un.

2.9 Ym mha flwyddyn cafodd eich sefydliad ei ffurfio?

Nodwch ym mha flwyddyn cafodd eich sefydliad ei ffurfio. Gallai hyn fod yn wahanol i ba bryd mabwysiadodd eich sefydliad ei statws cyfreithiol, ei enw neu ei strwythur presennol.

2.10 Beth yw pwrpas/dibenion eich sefydliad? Dylai'r rhain fod yn ddibenion neu nodau cyfreithiol eich sefydliad, fel y nodir yn eich dogfen lywodraethu (e.e. cyfansoddiad neu femorandwm ac erthyglau cymdeithasu).

Copiwch hwn o'ch dogfen lywodraethu, gair am air.

2.11 Os nad yw eich sefydliad yn elusen gofrestrdig, nodwch yr adran yn eich dogfen lywodraethu sy'n dangos eich bod yn gweithredu fel sefydliad nid-er-elw.

Dylai hyn fod yn nogfen lywodraethu eich sefydliad. Copiwch hwn o'ch dogfen lywodraethu, gair am air.

2.12 Nodwch y cymal llawn yn eich dogfen lywodraethu sy'n datgan beth fydd yn digwydd i unrhyw arian dros ben os bydd eich sefydliad yn dirwyn i ben (e.e. cymal diddymu neu glo asedau).

- 👉 Rhaid i bob sefydliad gael cymal diddymu neu glo asedau. Copiwch hwn o'ch dogfen lywodraethu, gair am air.
- 👉 Mae cymal diddymu'n esbonio sut mae eich sefydliad yn bwriadu diddymu neu derfynu, os bydd y sefyllfa'n codi.

Rhaid i Gwmni Buddiannau Cymunedol gael clo asedau. Rhaid i hwn enwi'r sefydliad dan sylw y caiff cyllid ei ddsbarthu iddo. . Mae clo asedau'n nodi beth fydd yn digwydd i'ch asedau, gan gynnwys unrhyw elw neu arian arall dros ben, os bydd eich sefydliad yn rhoi'r gorau i weithredu. Mae angen eich clo asedau arnom i ddangos y byddwch yn defnyddio'r arian hwn er budd y gymuned.

2.13 Sawl aelod cyflogedig o staff sydd gan eich sefydliad?

Mae hyn yn cynnwys staff amser llawn, rhan-amser a sesiynol y mae eich sefydliad yn eu talu. Ar gyfer staff sesiynol, dylech ddim ond cynnwys aelodau o staff sy'n gweithio i chi'n rheolaidd (h.y yn wythnosol/misol).

2.14 Sawl aelod gweithredol sydd ar gorff llywodraethu eich sefydliad?

Eich corff llywodraethu sy'n goruchwyllo ac yn rheoli eich sefydliad (e.e. ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr y cwmni).

Rydym yn mynnu bod gan sefydliad dri aelod o leiaf ar ei fwrdd neu bwyllgor.

2.15 A yw unrhyw aelodau o fwrdd llywodraethu, staff gweithredol neu awdurdodwyr taliadau eich sefydliad yn perthyn neu'n byw gyda'i gilydd?

Mae'n bwysig i fyrddau llywodraethu allu gweithio'n deg a heb unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau. Mae perthyn neu fyw gyda'i gilydd wrth wasanaethu ar fwrdd neu fod yn gyflogai yn cael ei ystyried yn achos o wrthdaro rhwng buddiannau. Mae gwrthdaro rhwng buddiannau yn digwydd pan fydd gan rywun mewn safle o ymddiriedaeth (fel cyflogai neu aelod o'r bwrdd) berthnasoedd personol a phroffesiynol sy'n cystadlu â'i gilydd ar yr un pryd.

Os oes pobl yn perthyn neu'n byw gyda'i gilydd, rhowch wybod i ni am unrhyw bolisiâu neu weithdrefnau ar gyfer gwrthdaro rhwng buddiannau sydd gennych ar waith i atal hyn.

Dylai'r rhain sicrhau bod gweithdrefnau craffu a goruchwyllo addas yn cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw benderfyniadau y gallai'r unigolion cysylltiedig hyn eu gwneud ar y cyd.

2.16 Rhowch wybod i ni beth yw'r nifer isaf o aelodau â phleidlais sy'n rhaid bod yn bresennol er mwyn bodloni eich rheolau ar wneud penderfyniadau teg.

Mae hyn yn cael ei alw'n 'cworwm' hefyd. Dylai sefydliadau wneud yn siŵr eu bod yn gwneud penderfyniadau mewn ffordd deg. I wneud hyn, mae ganddynt bolisi'n aml sy'n nodi sawl aelod o'r corff llywodraethu sy'n rhaid bod yn bresennol i bleidleisio ar benderfyniadau mawr.

Mae hyn yn atal nifer fach o aelodau rhag gwneud penderfyniadau heb ymgynghori â'r corff ehangach.

Gallwch ddangos hyn mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys:

- 👉 Nifer o'r aelodau
- 👉 Canran o'r aelodau
- 👉 Ffracsiwn o'r bwrdd cyfan
- 👉 Cyfuniad o'r uchod, e.e. 'O leiaf hanner y bwrdd, ac un aelod'

2.17 Sawl gwaith y flwyddyn mae corff llywodraethu'r prosiect hwn yn cyfarfod yn ffurfiol, gan gynnwys unrhyw Gyfarfodydd Cyffredinol Blyneddol?

Mae hyn yn golygu'r corff a fydd yn atebol am ein grant. Dylai hwn fod y corff a fydd yn goruchwylio ac yn rheoli'r grant hwn a'r prosiect mae'n ei ariannu. Gallai hyn fod yn ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr y cwmni, neu'n bwyllgor rheoli ar wahân. Mae cyfarfod ffurfiol yn gyfarfod gydag agenda a chofnodion ysgrifenedig. Rhwch rif yn y bocs hwn, h.y. '4' yn hytrach nag 'yn chwarterol'.

2.18 Nodwch ddyddiadau pedwar cyfarfod ffurfiol diwethaf eich corff llywodraethu (fel pwyllgor rheoli, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr neu Gyfarwyddwyr)

Nodwch ar ba ddyddiadau cynhaliwyd eich pedwar cyfarfod ffurfiol diwethaf. Mae cyfarfod ffurfiol yn gyfarfod gydag agenda a chofnodion ysgrifenedig.

2.19 Oes gennych unrhyw is-gwmnïau neu is-elusennau? Os oes, a yw cyfarwyddwyr y prif fwrdd wedi'u cynrychioli ar fwrdd yr is-gorff?

Mae is-gorff yn elusen neu'n gwmni y mae eich sefydliad yn berchen arno neu'n ei reoli. Mae'n debygol fod eich sefydliad yn cael ei adnabod fel y sefydliad rhiant/daliannol. Efallai fod gan eich sefydliad nifer o is-gyrff.

3. Cyllid

3.1 Does any member of your governing body receive any form of payment for their duties? 3.1 A yw unrhyw aelod o'ch corff llywodraethu'n cael unrhyw fath o daliad am ei ddyletswyddau?

Os felly, rhwch wybod i ni sut mae eich dogfen lywodraethu neu ddogfennaeth arall yn caniatáu hyn.

Fel rheol, nid yw sefydliadau elusennol yn gallu talu eu hymddiriedolwyr oni bai fod eu dogfen lywodraethu, y Comisiwn Elusennau neu'r Llysoedd yn caniatáu hynny'n benodol. Os ydych yn talu unrhyw ymddiriedolwyr, nodwch sut mae gennych ganiatâd i wneud hynny.

Efallai y bydd rhaid i chi gopïo hwn o'ch dogfen lywodraethu neu o ddogfennau mewnol eraill.

3.2 Esboniwch eich prosesau a'ch gweithdrefnau ar gyfer awdurdodi taliadau, yn ogystal ag unrhyw weithdrefnau lliniaru risg sydd gennych ar waith.

Amlinellwch bolisiâu a gweithdrefnau eich sefydliad i leihau unrhyw risgiau ariannol mewn cysylltiad â thalu trydydd partïon neu aelodau o staff. Gallai hyn gynnwys yr hyn rydych yn ei wneud i awdurdodi taliadau a'r gwaith o'u goruchwyllo.

Efallai fod gennych gyfyngiadau ar y canlynol:

- 👉 Faint mae aelodau penodol o staff yn cael awdurdodi
- 👉 Sawl person sydd ei angen arnoch i awdurdodi taliadau
- 👉 Y broses sy'n cael ei defnyddio i gytuno ar benderfyniadau ariannol a thaliadau a'u cymeradwyo
- 👉 Pa aelodau o staff sydd â mynediad at wybodaeth am daliadau (fel rhifau cyfrif)

3.3 Beth yw eich polisi arian wrth gefn?

Mae arian wrth gefn yn rhan o'r cyllid mae eich elusen yn ei ddal. Hwn hefyd yw'r arian y mae eich sefydliad yn gallu ei wario ar ei ddibenion elusenol. Efallai fod gan eich sefydliad gronfeydd cyfyngedig hefyd. Mae'r rhain yn symiau o arian sy'n cael eu gwario mewn ffordd benodol. Mae disgwyl i sefydliadau wneud dewisiadau ynghylch sut maen nhw'n gwario eu cyllid ac a ydynt am roi arian o'r neilltu.

Mae polisi arian wrth gefn yn esbonio'r dewisiadau mae sefydliad wedi'u gwneud o ran a ydynt am roi arian o'r neilltu:

- 👉 Er mwyn manteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol
- 👉 Neu i'w warchod rhag gostyngiadau mewn incwm yn y dyfodol

Dylid ei adolygu'n rheolaidd. Dylai'r polisi cronfeydd wrth gefn nodi:

- 👉 Faint mae angen i'r sefydliad ei gadw wrth gefn, a pham
- 👉 Sut a phryd mae'r sefydliad yn gwario ei arian wrth gefn
- 👉 Pa mor aml byddwch yn adolygu'r polisi arian wrth gefn

Bydd gwahanol symiau ac ystodau arian wrth gefn yn briodol i bob elusen. Mae llawer o sefydliadau'n gosod lefel yr arian wrth gefn rhwng tri a deuddeg mis o gostau rhedeg y sefydliad.

3.4 Os oes gan eich sefydliad lai na thri mis, neu fwy na deuddeg mis o arian wrth gefn, esboniwch y rhesymau am hyn.





Mae llawer o resymau da posibl pam mae eich sefydliad yn cadw lefel uchel neu isel o arian wrth gefn. Er enghraifft:

- 👉 Wedi prynu neu werthu eitemau mawr
- 👉 Wedi cynnal ymgyrch codi arian yn ddiweddar
- 👉 Wedi uno â chwmni arall yn ddiweddar

3.5 Nodwch eich trosiant blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyflawn ddiwethaf.

Nodwch drosiant blynyddol eich sefydliad ar gyfer y flwyddyn ariannol gyflawn ddiwethaf. Efallai fod eich blwyddyn ariannol yn wahanol i'r flwyddyn galendr. Gelwir blwyddyn ariannol yn 'flwyddyn gyllidol' (fiscal year) weithiau.

Trosiant yw'r holl arian rydych yn ei gael mewn cyfnod penodol cyn i chi ystyried yr arian rydych wedi'i wario. Gallai hyn gynnwys arian:

-  Rydych wedi'i godi drwy werthu
-  Rydych wedi'i godi drwy ymgyrch codi arian
-  Sydd wedi cael ei roi i chi
-  Rydych wedi'i gael drwy unrhyw ddull arall

4. Atodiadau

4.1. Os oes unrhyw beth i'w nodi ynghylch eich cyfrifon (e.e. cyflwyno'n hwyr, diffyg ayb), esboniwch hyn isod:

Mae'r cwestiwn hwn yn ddewisol. Os hoffech ein gwneud yn ymwybodol o unrhyw beth yn eich cyfrifon, rhowch wybod i ni am hynny yma. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am arian dros ben/diffyg, incwm/gwariant penodol, neu wybodaeth ychwanegol am eich arian wrth gefn.




5. Diogelu

5.1 A oes gan eich sefydliad bolisi Diogelu Plant a Phobl Ifanc yn ei enw ei hun?

Dylai polisi Diogelu Plant a Phobl Ifanc eich sefydliad fod yn enw eich sefydliad. Nid ydym yn derbyn polisiau sydd yn enw sefydliad arall, er enghraifft sefydliad partner, sefydliad rhiant neu sefydliad cysylltiedig.

5.2 Sut cafodd y polisi hwn ei ddatblygu?

Rhowch wybod i ni beth oedd y camau a arweiniodd at greu'r polisi hwn. Gallai hyn gynnwys:

-  Cymorth gan sefydliad allanol neu awdurdod lleol
-  Y bobl a oedd yn rhan o'r broses
-  Defnyddio polisiau blaenorol neu hyfforddiant.

5.3 Ar ba ddyddiad gwnaethoch chi adnewyddu eich polisi Diogelu Plant a Phobl Ifanc ddiwethaf?

Rhowch wybod i ni pa bryd gwnaethoch chi adnewyddu eich polisi Diogelu Plant a Phobl Ifanc ddiwethaf.

5.4 Ar ba ddyddiad ydych chi am adnewyddu eich polisi Diogelu Plant a Phobl Ifanc nesaf?

Rhowch wybod i ni pa bryd rydych chi'n bwriadu adnewyddu eich polisi Diogelu Plant a Phobl Ifanc nesaf.

5.5 A yw'r holl staff a / neu wirfoddolwyr sy'n cael cyswllt wyneb yn wyneb â phlant a phobl ifanc yn cael hyfforddiant diogelu?

Mae hyn yn cyfeirio at hyffordi diogelu cyffredinol. Dylid cynnwys adrannau ar arwyddion camdriniaeth neu esgeuluso neu diogelu plant ar-lein. Rydym ond yn gofyn am y wybodeth ar gyfer aelodau staff neu gwirfoddolwyr sydd yn gweithio wyneb yn wyneb â phlant.

5.5 Pa mor aml mae eu hyfforddiant diogelu'n cael ei adnewyddu?

Rhowch wybod i ni pa mor aml mae hyfforddiant diogelu cyffredinol eich staff a'ch gwirfoddolwyr yn cael ei adnewyddu.

5.6 A yw'r holl staff a / neu wirfoddolwyr sy'n cael cyswllt wyneb yn wyneb â phlant a phobl ifanc yn cael hyfforddiant ar safonau a gweithdrefnau diogelu eich sefydliad?

Mae hyn yn cyfeirio at hyfforddiant diogelu pwrpasol i'ch sefydliad a/neu eich prosiect. Byddai'n trin pynciau a allai fod:

- 👉 Yn berthnasol i risgiau penodol neu elfennau o'r gwaith mae eich sefydliad yn ei wneud
- 👉 Yn berthnasol i anghenion y bobl ifanc rydych yn gweithio gyda nhw
- 👉 Eich polisiâu a gweithdrefnau mewnol, e.e. beth i'w wneud os bydd person ifanc yn gwneud datgeliad, a gyda phwy dylid cysylltu.

Dim ond ar gyfer staff neu wirfoddolwyr sy'n cael cyswllt wyneb yn wyneb â phlant y mae angen y wybodaeth hon arnom.

5.7 Pa mor aml mae eu hyfforddiant ar safonau a gweithdrefnau diogelu eich sefydliad yn cael ei adnewyddu?

Rhowch wybod i ni pa mor aml mae hyfforddiant eich staff, gwirfoddolwyr a/neu ymddiriedolwyr ar safonau a gweithdrefnau diogelu eich sefydliad yn cael ei adnewyddu.

5.8 Pwy yw Swyddog Diogelu Dynodedig y sefydliad?

Nodwch enw'r person sy'n gyfrifol am ddiogelu plant a phobl ifanc yn eich sefydliad. Yn aml, gelwir y person hwn yn 'Swyddog Diogelu Dynodedig' neu'n 'Arweinydd Diogelu Dynodedig'.

5.9 Beth yw teitl swydd eich Swyddog Diogelu Dynodedig?

Nodwch deitl swydd Swyddog/Arweinydd Diogelu Dynodedig eich sefydliad.




5.10 Sut mae'r person hwn yn gwneud yn siŵr ei fod yn cael yr hyfforddiant a'r wybodaeth ddiweddaraf?

Mae'n bwysig bod eich Arweinydd Diogelu Dynodedig yn ymwybodol o'r arferion gorau cyfredol. Nodwch sut mae'n sicrhau hyn. Er enghraifft, drwy hyfforddiant rheolaidd neu ddiweddariadau gan yr awdurdod lleol.

5.11 A yw'r holl staff cymwys, y pwyllgor rheoli a'r gwirfoddolwyr wedi cael archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Disclosure Scotland neu Access NI? Os nad ydynt, rhowch esboniad.

Rydym yn mynnu bod eich sefydliad yn gwneud yn siŵr bod pawb sy'n gweithio gyda phlant wedi cael archwiliad cefndir perthnasol. Gallai hyn fod drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Disclosure Scotland neu Access NI. Mae hyn yn cynnwys yr holl staff a gwirfoddolwyr sydd â mynediad uniongyrchol at blant. Gofynnwn i chi gadarnhau bod eich sefydliad yn gwneud yr archwiliadau hyn, ac os ddim, esbonio pam.

Dim ond staff cymwys sy'n gorfod cael yr archwiliadau hyn. Nid oes angen yr archwiliadau hyn ar staff a gwirfoddolwyr nad ydynt yn cael cyswllt wyneb yn wyneb â phlant a phobl ifanc.




-  I gael rhagor o wybodaeth am yr archwiliadau perthnasol yng Nghymru a Lloegr, ewch i wefan gov.uk.
-  I gael rhagor o wybodaeth am yr archwiliadau perthnasol yn yr Alban, ewch i wefan myscot.gov.
-  I gael rhagor o wybodaeth am yr archwiliadau perthnasol yng Ngogledd Iwerddon, ewch i wefan nidirect.gov.uk.

5.12 Pa mor aml ydych chi'n ailadrodd archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Disclosure Scotland neu Access NI?

Rhowch wybod i ni pa mor aml rydych yn ailadrodd yr archwiliadau perthnasol ar aelodau priodol o staff. Nodwch yma a ydych yn gwneud yr archwiliadau hyn unwaith, yn rheolaidd neu a ydynt yn adnewyddu'n awtomatig.

5.13 Pwy sy'n darparu eich Hyfforddiant Diogelu Plant a Phobl Ifanc? Beth sy'n eu gwneud yn gymwys i'w ddarparu?

Rydym am wybod:

-  Pa unigolyn neu sefydliad sy'n darparu eich Hyfforddiant Diogelu Plant a Phobl Ifanc?
-  Beth sy'n eu gwneud yn gymwys i ddarparu'r hyfforddiant hwn? Gallai hyn gynnwys cymwysterau, profiad, aelodaeth o sefydliadau neu i bwy maen nhw'n gweithio.
-  Bod y bobl sy'n darparu'r hyfforddiant hwn yn ymwybodol o'r wybodaeth fwyaf perthnasol a'r arferion gorau.

5.14 A yw pob aelod o gorff llywodraethu eich sefydliad yn cael hyfforddiant Diogelu Plant a Phobl Ifanc?

Mae corff llywodraethu eich sefydliad yn gyfrifol am ddiogelwch a lles y plant a'r bobl ifanc mae eich sefydliad yn dod i gysylltiad â nhw. Mae aelodau'r corff llywodraethu'n gyfrifol hyd yn oed os nad ydynt yn cael cyswllt wyneb yn wyneb â'r plant a phobl ifanc eu hunain.

Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â hyfforddiant diogelu cyffredinol. Bydd yn ymwneud â meysydd fel arwyddion o gam-drin neu esgeuluso, neu gadw plant yn ddiogel ar-lein.

5.15 A yw pob aelod o'r corff llywodraethu'n cael hyfforddiant ar safonau a gweithdrefnau diogelu eich sefydliad?

Mae corff llywodraethu eich sefydliad yn gyfrifol am ddiogelwch a lles y plant a'r bobl ifanc mae eich sefydliad yn dod i gysylltiad â nhw. Mae aelodau'r corff llywodraethu'n gyfrifol hyd yn oed os nad ydynt yn cael cyswllt wyneb yn wyneb â'r plant a phobl ifanc eu hunain.

Mae hyn yn cyfeirio at hyfforddiant diogelu pwrpasol i'ch sefydliad a/neu eich prosiect. Byddai'n trin pynciau a allai fod:

- 🐼 Yn berthnasol i risgiau penodol neu elfennau o'r gwaith mae eich sefydliad yn ei wneud
- 🐼 Yn berthnasol i anghenion y bobl ifanc rydych yn gweithio gyda nhw
- 🐼 Eich polisiau a gweithdrefnau mewnol, e.e. beth i'w wneud os bydd person ifanc yn gwneud datgeliad, a gyda phwy dylid cysylltu.

5.16 Pa mor fuan ar ôl ymuno mae cyflogai/gwirfoddolwr yn cael hyfforddiant Diogelu Plant a Phobl Ifanc?

Rhowch wybod i ni beth yw'r cyfnod mwyaf posibl fydd aelod o staff/gwirfoddolwr newydd yn ei dreulio yn eich sefydliad cyn cael ei hyfforddiant diogelu.

5.17 Oes gan eich sefydliad God Ymddygiad sy'n nodi disgwyliadau clir o ran sut dylai staff a gwirfoddolwyr ymddwyn tuag at blant?

Nodwch a oes gan eich sefydliad God Ymddygiad sy'n amlinellu sut dylai eich staff, eich gwirfoddolwyr a phlant ymddwyn wrth gymryd rhan yn eich prosiect.

5.18 A yw hyn yn cynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol/digidol?

Rydym yn disgwyl i bolisi diogelu eich sefydliad fodloni'r canlynol:

- 🐼 Dangos diwylliant cryf o gefnogi diogelwch ar-lein a chydnerthedd digidol plant a phobl ifanc.
- 🐼 Dangos sut mae staff a phlant yn ddiogel ac yn gyfrifol ar-lein.
- 🐼 Bod yn berthnasol i'r sefydliad, ei weithgareddau a bod yn briodol i oedran

Dylech ddangos eich dulliau rheoli a'ch cefnogaeth ar gyfer yr amgylchedd digidol, gan gynnwys:

- 🐼 Sut rydych yn cefnogi ac yn grymuso pobl ifanc i reoli eu bywydau ar-lein. Dylai prosiectau ddangos sut maen nhw'n datblygu cydnerthedd digidol plant mewn ffordd briodol i oedran.
- 🐼 Dull gweithredu cyson i adlewyrchu'r byd go iawn a'r byd rhithiol mae plant, staff a gwirfoddolwyr yn eu profi

Dylai prosiectau sy'n defnyddio technoleg ryngweithiol i gyfathrebu â phobl ifanc ystyried elfennau fel:

- 🐼 Rheolaethau preifatrwydd
- 🐼 Diogelwch drwy gyfrinair
- 🐼 Cymedroli priodol.

5.19 Oes gennych broses wedi'i dogfennu'n glir ar gyfer beth i'w wneud os caiff y polisi hwn ei dorri?

Rhowch wybod i ni a oes proses glir sy'n cysylltu eich Cod Ymddygiad â pholisi Adnoddau Dynol os oes achos o aelod o staff neu wirfoddolwr yn peidio â dilyn ei bolisiau.

6. Eich Prosiect

6.1 Oes gennych brosiect mewn golwg yn barod ar gyfer y cais rydych am ei wneud i ni?

Mae'r cwestiwn hwn yn ddewisol. Yn y cam Cofrestru, nid oes rhaid i chi gael prosiect clir mewn golwg ar gyfer y cais rydych am ei wneud i ni.

Os oes gennych brosiect mewn golwg, rhowch ddisgrifiad byr ohono yma. Bydd hyn yn ein galluogi i roi cyngor i chi ar ei gymhwysedd a'ch cyfeirio at y canllawiau mwyaf defnyddiol.

6.2. A ydych yn cael cyllid Prif Grant BBC Plant mewn Angen ar gyfer y prosiect hwn ar hyn o bryd?

Os ydych yn cael cyllid ar gyfer y prosiect penodol hwn ar hyn o bryd, gallwch wneud cais am grant arall er mwyn parhau i redeg yr un prosiect ar ôl eich grant cyfredol. Rydym yn disgwyl i chi ddarparu tystiolaeth glir o sut mae eich prosiect wedi gwneud gwahaniaeth i'r plant a'r bobl ifanc rydych chi wedi gweithio gyda nhw yn ystod y grant blaenorol. Byddwn hefyd yn edrych yn ôl ar eich adroddiadau grant blynyddol wrth asesu eich cais.

Nid yw cael grant ar hyn o bryd yn unrhyw warant o gyllid pellach, gan ein bod ni'n ystyried pob cais ar sail ei rinweddau ei hun.

Os oes gennych grant gyda ni ar hyn o bryd ond yn ystyried gwneud cais am brosiect ar wahân, dewiswch 'Na'.

7. Adborth

7.1 Mae'r Ffurflen Gofrestru hon i Sefydliadau'n rhan o broses Prif Grantiau newydd. Efallai y byddwn yn dymuno cysylltu â chi i gael adborth ar y profiad o wneud cais fel rhan o'r broses hon. Ticiwch yma os ydych yn fodlon i ni gysylltu â chi.

Mae'r cwestiwn hwn yn ddewisol. Ni fydd eich ateb yn effeithio ar ein hystyriaeth o'ch Cofrestriad.